CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

21 Ionawr 2025, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D ap Rhobert, A Williams, S Jones, M Jones, W Williams, G D Williams, A Wyn, R Hughes, C McGregor, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: Dim	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng S Jones. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03.12.24. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng D Ap Rhobert yn cynnig a Cyng R Hughes yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Tyfiant ger y sgwar, Talwrn** - Mae'r mater hwn wedi'i glirio a gellir ei dynnu oddi ar yr agenda
4.2	**B5110 40myh** - Mae'r Cyngor Sir yn aros am ganllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar ardaloedd 30/40mya.
4.3	**Llwybrau Cyhoeddus** Talwrn – mewn llaw
4.4	**Llwybr at y cae Chwarae** – mewn llaw
4.5	**Penbonc/Neuadd Talwrn -** Cynigiodd y Cyng W Williams drafod y mater gyda Chadeirydd y pwyllgor ac adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf.
4.6	**Golau fflachio –** Cytunwyd i beidio â bwrw ymlaen â hyn ar hyn o bryd oherwydd y costau
4.7	**Hafan Deg – Bodlondeb** - Dywed y Cyngor Sir fod y gwaith wedi ei wneud
4.8	**Tro yn Llangwyllog** - Mae y Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir am arwyddion ychwanegol
4.9	**Croesffordd Maenaddwyn** - Mae y Clerc wedi gofyn i'r Cyngor Sir am dryll arall.
4.10	**Torri Lon y Capel –** mewn llaw
	Llofnod…….Cadeirydd 18.02.25

4.11	**Sgwar Talwrn (damweiniau)** - Dywedodd y Clerc nad oedd y Cyngor Sir wedi cynnig dyddiad ar gyfer cyfarfod safle oherwydd eu bod yn aros am wybodaeth ystadegol gan yr Heddlu. Dywedodd y Cyng M Jones nad oes gan yr Heddlu bob amser wybodaeth ystadegol ynghylch damweiniau ffordd. Codwyd pryder ynglŷn â chost pob damwain dros y blynyddoedd megis y gwasanaethau brys gan gynnwys yr Ambiwlans Awyr. Dywedodd y Cyng A Williams fod Mrs O Orm wedi cysylltu â hi ac wedi lleisio ei phryderon a'i hofn. Mae Mrs Orm yn byw yn y sgwâr ac mae sawl cerbyd wedi gyrru i mewn i'w gardd. Teimla'r aelodau nad yw'r Cyngor Sir yn cymryd y mater yn ddigon difrifol.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Gordyfiant Talwrn – gweler 4.1
5.2	Cau Ffordd Dros Dro - Lon Gwenfro, Llanbedrgoch – gwybodaeth yn unig
5.3	Cau Ffordd Dros Dro - B5109 Talwrn i Pentraeth – gwybodaeth yn unig
5.4	Cau Ffordd Dros Dro - B5420 Ffordd Penmynydd i Ceint – gwybodaeth yn unig
5.5	Llwybrau y Gors - Bydd y Clerc yn gofyn i'r contractwr torri y llwybrau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
	Dim
7	**MATERION ERAILL**
7.1	Tyfiant mynwent Llanddyfnan - Cynigiodd y Cadeirydd ymweld â'r fynwent ac adrodd yn ôl
7.2	Diweddariad o gyfarfodydd Elusen Llanffinan - Dywedodd y Cyng McGregor (cynrychiolwr y Cyngor Cymuned ar y Bwrdd) bod sawl cyfarfod wedi bod ers mis Medi diwethaf. Mae'r Sgowtiaid wedi bod yn prydlesu tir sy'n perthyn i'r Elusen ers 2014 ac mae ganddynt gontract gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Elusen wedi penderfynu eu bod yn dymuno gwerthu'r tir cyn gynted â phosibl, o bosibl trwy arwerthiant
7.3	Coeden mynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd - Mae coeden fawr o fewn y Fynwent Llanfihangel Tre'r Beirdd wedi mynd drosodd ac wedi achosi peth difrod i'r wal derfyn. Cytunwyd bod y Clerc yn cyflwyno cais i'r cwmni yswiriant am symud y goeden a thrwsio'r wal.
	Llofnod…….Cadeirydd 18.02.25

7.4	Ffynnon ger Cae'r Mynydd - Mae dŵr wedi bod yn rhedeg o'r cae ger y ffynnon (o bibell). Dywedodd y Cyng R Hughes bod twll yn y bibell a bod y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r broblem. Maent yn gweithio arno ar hyn o bryd.
8	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu'r canlynol:
8.1	Languard £150.00 (Japanese knotweed)
8.2	Anglesey Computer Solutions £198.00 (cost gwefan 2025)
8.3	Adolygu cyllideb - Derbyniwyd y gyllideb a baratowyd gan y swyddog cyllid ar gyfer y cyfnod Ion 2025 i Fawrth 2025 gan yr aelodau. Mae gan y cyngor ddigon o arian.
8.4	Praesept 2025-2026 – Cytunwyd i gynyddu'r praesept i £12000. Bydd y cyngor hefyd yn defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn.
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Tai Lon Newydd
9.2	Bryn Brochan
	Llofnod…….Cadeirydd 18.02.25